

LEFEL 3 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI

Pam dewis Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori?

Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer pobl sy'n gweithio, neu sydd am weithio, mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theuluoedd/gofalwyr a phlant o dan 8 oed a gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd/gofalwyr a phlant 0-19 oed.

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi modd i'r dysgwyr hynny sydd am ymuno â'r gweithle blynyddoedd cynnar wella eu sgiliau ymarfer a theori i safon lefel 3. Mae'r cwrs hwn yn cynnig cymysgedd cytbwys o theori ac ymarferol er mwyn i'r dysgwr ddatblygu ym mhob maes o ymarfer blynyddoedd cynnar.

Beth fyddaf yn ei astudio?

Mae'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn cyfuno gwybodaeth ddamcaniaethol o'r maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant â'r sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithio yn y sector.

Mae wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn addysg bellach sydd:

- â diddordeb mewn gweithio mewn rôl gymorth yn y sector gofal plant
- yn astudio, neu sydd wedi cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- yn dychwelyd i'r gweithle ar ôl seibiant gyrfa sydd am fireinio eu gwybodaeth a'u sgiliau yn y sector gofal plant.

Mae 700 awr o ddysgu yn y gwaith ar gyfer y lleoliad gwaith yn ofyniad ar gyfer y cwrs hwn.

LEFEL 3 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI



Pa sgiliau fyddaf yn eu datblygu?

Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith a/neu i symud ymlaen mewn gyrfa mewn lleoliadau gofal plant neu iechyd.

Mae'n gyfuniad o unedau ymarfer i'w hasesu yn y gweithle, ynghyd â gwybodaeth ddamcaniaethol ychwanegol. Mae elfen ymarfer y cymhwyster hwn yn cyfateb i'r hyn a geir yn y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Drwy gwblhau'r cymhwyster hwn, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall ac yn gallu defnyddio'n ymarferol, yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- deall, ac yn gallu defnyddio'n ymarferol, dulliau plant-ganolog i ofal, chwarae a dysgu
- hybu a chefnogi datblygiad plant drwy eu hymarfer eu hunain
- gallu gwerthuso ymchwil a damcaniaethau i gefnogi ymarfer
- ymwybodol o bolisiau allweddol yn y sector a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygu a darparu gwasanaethau
- gallu gweithio mewn partneriaeth â phlant, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol
- gallu myfyrio ar ymarfer i barhau i wella
- defnyddio amrywiaeth o dechnegau datrys problemau
- gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu rôl.

Sut byddaf yn cael fy asesu?

Bydd y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn cael ei asesu drwy asesiad mewnol (70%) ac asesiad allanol (30%). Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- **cyfres o dasgau wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol**
- **portffolio o dystiolaeth**
- **trafodaeth â'u haseswr**
- **arholiad allanol**
- **ymchwiliad estynedig wedi'i osod a'i farcio'n allanol.**

Gyrfaoedd gyda Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Bydd cwblhau'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol drwy amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch neu brentisiaethau.

Mae pwyntiau UCAS am y cymhwyster hefyd.

Neu

Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gyflogaeth mewn rôl Lefel 3 neu symud ymlaen at ddysgu pellach drwy'r cymwysterau canlynol gan y Consortiwm*:

- TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 4 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag arbenigedd
- Lefel 4 Arwain a Rheoli, Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau.